Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | Cyfarfod: | Bwrdd Plismona |
|---|---|---|
| | Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTh |
| | Dyddiad: | 6 Gorffennaf 2016 |
| | Amser: | 10:00 – 11:10 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 22/06/16**

| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|
| PB 2010 | PG i nodi arweinydd yr heddlu ar gyfer trafodaethau â'r gwasanaeth tân mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer cydweithio. | Cadarnhaodd y PG mai'r PGC/DD Kelly oedd y cyswllt |
| PB 2011 | Cynrychiolydd o SCHTh i gwrdd ag arweinydd Prosiect Llywodraethu Corfforaethol yr heddlu yn rheolaidd | Cwblhawyd – cyfarfodydd rheolaidd i'w sefydlu |
| PB 2012 | SCHTh i gysylltu â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant mewn perthynas ag ymgysylltu o ran wythnos y glas | Cwblhawyd |
| PB 2013 | Timoedd Plismona Bro i roi gwybodaeth i'r CHTh mewn perthynas â gweithgarwch cyfredol | Ar waith |
| PB 2014 | PG i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â sicrwydd bod contractwyr yn talu'r isafswm cyflog | Cwblhawyd |
| PB 2015 | Y CC i roi diweddariad ynghylch statws cyfredol y darparwr gwasanaethau teithio | Cwblhawyd |
| PB 2016 | Y PG i drafod y posibilrwydd o gynnwys ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn yr arolwg staff sydd ar fin cael ei gyhoeddi | Cwblhawyd – i'w gynnal ar wahân |
| PB 2017 | CHTh i ymweld â'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu i gael gwybodaeth am sut y defnyddiwyd buddsoddi ychwanegol | Ar waith |
| PB 2018 | PSA i roi trosolwg i'r PG o gais gan Heddlu Swydd Bedford mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer y prosiect cronfa arloesedd | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2019** | **PG i hysbysu'r CHTh pa un ai a yw'r heddlu'n dymuno cefnogi cais Cronfa Arloesedd Swydd Bedford** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2020** | **CA i ystyried darpariaeth dros dro ar gyfer y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn darparu nifer digonol o staff yn ystod y cyfnod recriwtio** | **Cwblhawyd – i'w drafod o dan eitem agenda diweddarach** |
| **PB 2021** | **Adolygu cynnydd trafodaethau ynghylch Gwasanaethau Meddygol Fforensig â byrddau iechyd lleol ym mis Medi** | **Cwblhawyd – i'w drafod mewn BP ar 14/09/16** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin a materion yn codi**

Mynegodd y CHTh ei ddiolch i Dylan Davies a Steve Cadene am eu cymorth yn ystod adolygiad CHTh o'i strwythur swyddfa, a fyddai'n cael ei gyhoeddi i staff yn ddiweddarach heddiw.

Cychwynnodd y CHTh drafodaeth ar strwythur a phresenoldeb y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd. Awgrymodd y PSA y dylid adolygu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol maes o law, ond ar hyn o bryd, y gofyniad o dan y Fframwaith oedd bod y CA yn bresennol mewn cyfarfodydd Bwrdd Plismona.

Rhoddodd y CHTh drosolwg o gamau gweithredu wedi'u cwblhau o gyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y PG mai'r arweinydd ar gyfer mentrau ar y cyd â'r gwasanaeth tân fyddai'r PGC/DD Kelly. Dywedodd y PSA y byddai'r PGC/DD yn cael ei gwahodd i ymuno â'r Bwrdd Ystadau.

Dywedodd y CHTh ei fod eisiau sefydlu cyfarfodydd rheolaidd â Helen Morgan-Howard a Paul Morris er mwyn parhau â'r gwaith llywodraethu corfforaethol.

Roedd y PG wedi ymateb i'r CHTh er mwyn rhoi sicrwydd bod gofyniad ym mhob cytundeb i gontractwyr dalu'r cyflog byw cenedlaethol, a bod y tîm Ystadau'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod y profion a'r gwiriadau priodol yn cael eu cynnal.

Mynegodd y CHTh awydd i gyfathrebu â chymunedau a busnesau drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu. Dywedodd y DBG bod Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn awyddus i gwrdd â'r CHTh i drafod ymgysylltu ac ymgynghori. Cytunodd y CHTh y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu.

**Cam Gweithredu: SCHTh i drefnu cyfarfod rhwng y CHTh a Chadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol**

Cadarnhaodd y PG nad oedd HDP mewn sefyllfa i roi adnoddau i gefnogi prosiect Cronfa Arloesedd Swydd Bedford, ond byddai'n monitro'r cynnydd ac yn adolygu cysylltiad posibl HDP yn y dyfodol.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG drosolwg o achosion 5 swyddog sydd wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd.

Dywedodd y PG ei fod wedi cysylltu â'r holl ASau lleol mewn perthynas â chymorth a chyngor yn dilyn llofruddiaeth Jo Cox. Cynghorodd y DBG bod datganiad i'r wasg yn cael ei baratoi mewn ymateb i gynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â diogelwch ASau a throseddau casineb. Cytunwyd y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â swyddfa CHTh. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y troseddau casineb sy'n cael eu cofnodi, a oedd yn cael ei briodoli i well riportio a chofnodi mwy cadarn.

Bydd angladd swyddog HDP a oedd yn gwasanaethu'n cael ei i gynnal fory, a bydd y DBG yn bresennol.

Soniodd y CHTh am rai digwyddiadau gweithredol allweddol yr oedd wedi'u nodi yn y system sefyllfa ddyddiol, gan gynnwys y digwyddiad a oedd yn ymwneud â phlant coll ym Mannau Brycheiniog.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

***Adnoddau ar gyfer rhaglen o waith ystadau***

Cyfeiriodd y CHTh at sgyrsiau blaenorol mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer y bwrdd prosiect ystadau, ac roedd sicrwydd wedi'i roi y byddai'r PGC yn awr yn mynychu'r cyfarfodydd Bwrdd ar ran yr Heddlu. Nododd y PSA ei diolch i'r Prif Arolygydd Peter Roderick am ei gyfraniad sylweddol i'r prosiect. Dywedodd y CHTh ei fod eisiau i'r cynnydd da barhau. Sicrhaodd y DBG y byddai cysylltiad yr Heddlu'n cael ei gefnogi trwy eu strwythurau llywodraethu newydd a oedd yn cael eu drafftio ar hyn o bryd.

Roedd y CHTh wedi cwrdd â'r Uwch-arolygydd Claire Parmenter a'r Prif Uwch-arolygydd Aled Davies i drafod y datrysiad ar gyfer Tîm Plismona Bro Caerfyrddin. Roedd gwaith ar fin cychwyn ar hen adeilad y gwasanaeth prawf i gartrefu staff o Barc y Brodyr, ac roedd trafodaethau'n parhau mewn perthynas â lleoliad yn nhref Caerfyrddin ar gyfer y Tîm Plismona Bro.

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Dywedodd y PSA bod y Cyfrifon Statudol wedi'u cymeradwyo ar ffurf drafft a'u cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru ar 30 Mehefin. Roedd Archwilwyr yn yr Heddlu ar hyn o bryd yn archwilio'r cyfrifon.

**Diweddariadau**

***Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus (SGC)***

Tynnodd y CHTh sylw at y prinder staff parhaus yn y SGC a oedd angen cymorth gan yr Heddlu. Bu'r galw ar wasanaethau'r SGC yn uchel yn ddiweddar, ac mae archwiliad mewnol diweddar wedi darparu sicrwydd cyfyngedig. Ystyriwyd bod y rhan fwyaf o faterion yn yr archwiliad o ganlyniad i broblem o ran adnoddau. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phwrpas y SGC o ran ymdrin â chwynion lefel is yn ystod cam cynnar er mwyn lleihau'r nifer sy'n gwaethygu i gwynion ffurfiol. Cyfeiriodd y CHTh at y diwygiad o ran cwynion heddlu hefyd, a'r effaith y gall hyn gael ar sut y mae'r SGC yn gweithredu, ac ystyriodd y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad i'r ffordd y mae'r swyddogaeth brysbennu SGC yn cysylltu â'r broses ehangach o drin cwynion, ar y cyd â Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Cytunwyd ar hyn, gyda'r DBG yn cadarnhau y byddai'n arwain y prosiect gyda'r Pennaeth Safonau Proffesiynol a Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth SCHTh. Awgrymodd y CHTh y dylid estyn y peilot SGC am hyd yr adolygiad er mwyn dod i benderfyniad ar y strwythur yn y dyfodol. Roedd SCHTh wedi hysbysebu cyfle ar gyfer secondiadau mewnol i'r SGC am gyfnod o hyd at 6 mis, gyda mynegiannau o ddiddordeb i'w cyflwyno erbyn diwedd yr wythnos. Dywedodd y CHTh ei fod wedi cytuno i staff SCHTh weithio goramser er mwyn mynd i'r afael â'r achosion sy'n dal i aros.

Holodd y DBG pa un ai a fu cynnydd sylweddol o ran cysylltiad gan y cyhoedd yn dilyn etholiad y CHTh. Dywedodd y PSA nad oedd y cynnydd yn sylweddol.

**Cam Gweithredu: DBG, Rheolwr Ansawdd SCHTh a'r Pennaeth Safonau Proffesiynol i gynnal adolygiad o'r SGC a'r ffordd y mae cwynion yn erbyn yr heddlu'n cael eu trin**

**Unrhyw Fusnes Arall**

Holodd y CHTh pa fonitro oedd mewn grym ar hyn o bryd o ran ymateb y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol i alwadau am wasanaeth. Ystyriodd y CHTh pa un ai a ddylid adolygu hyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Plismona ar sail reolaidd. Mynegodd y CHTh ei bryder mewn perthynas â'r lefel gwasanaeth a dderbynnir a'r difaterwch posibl a allai datblygu, gan arwain at lai o geisiadau am wasanaeth yn cael eu gwneud gan swyddogion. Dywedodd y PG bod ardal Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol De Cymru'n brysur iawn. Dywedodd y PG bod yr Uwch-arolygydd Huw Meredith yn monitro'r

sefyllfa’n agos. Ym mis Mai, gwnaed 27 cais am wasanaeth, ac ni chafwyd presenoldeb hofrennydd ar gyfer 18 o’r galwadau hynny. Roedd un yn ymwneud â’r amser teithio, roedd 11 digwyddiad wedi’u hildio gan HDP cyn i’r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol gyrraedd, ac ni aethpwyd i 6 digwyddiad oherwydd tywydd garw. Dywedodd y PG bod gwasanaeth da wedi’i dderbyn ar gyfer y 9 digwyddiad yr oedd y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn gysylltiedig â nhw ym mis Mai. Dywedodd y PG bod y gost i HDP fesul digwyddiad ym mis Mai yn £6,500 ar gyfartaledd yn seiliedig ar y lefel bresennol o gyfraniad ariannol (£800,000 y flwyddyn) a nifer yr achosion a weithredwyd. Roedd y PG yn ystyried bod y gwasanaeth a dderbyniwyd pan oedd yr hofrennydd yn bresennol yn dda iawn, ond roedd y gost yn uchel iawn. Ystyriodd y CHTh y byddai’n ddefnyddiol cael cymhariaeth o’r galw a’r defnydd o’r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol ar draws y rhanbarthau. Dywedodd y DBG bod gwybodaeth ynghylch y defnydd o’r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn cael ei chyflwyno yn y briffiad Prif Swyddogion wythnosol, ac awgrymodd y dylid cyflwyno adroddiad i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Cytunwyd y byddai hyn yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd Atebolrwydd chwarterol. Eglurodd y PG y byddai ystadegau ynghylch defnydd hefyd yn cael eu derbyn trwy’r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Dywedodd y PSA bod angen dadansoddiad o’r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn deall y cyfraniad a wneir a’r gwasanaeth a dderbynnir er mwyn cyflwyno sylwadau priodol i’r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol ar yr hyn sydd angen ar HDP yn y dyfodol.

Dywedodd y CHTh y byddai’r agenda ar gyfer y Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu sydd ar ddod yn cael ei ddrafftio cyn hir a’i rannu â’r PG. Mynegodd y DBG yr angen ar gyfer drafftio cylch gorchwyl i’w rannu â staff er mwyn eu paratoi ar gyfer yr hyn sydd angen.

| CRYNODEB O’R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/07/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o’r cam gweithredu** | **I’w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2022** | **SCHTh i drefnu cyfarfod rhwng y CHTh a Chadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol** | **SCHTh** |
| **PB 2023** | **DBG, Rheolwr Ansawdd SCHTh a’r Pennaeth Safonau Proffesiynol i gynnal adolygiad o’r SGC a’r ffordd y mae cwynion yn erbyn yr heddlu’n cael eu trin** | **SCHTh** |